# Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

SLC(3)-08-08)

**SLC133**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddiadau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/614 (Cy.66)). Mae Rheoliad 5(a) o'r Rheoliadau hynny yn gwahardd, yn unol ag adran 72(4)(a) o Ddeddf 2004, gosod ffi gosb am dramgwydd parcio ac eithrio ar sail cofnod a gynhyrchir gan ddyfais a gymeradwyir neu wybodaeth a roddir gan swyddog gorfodi sifil parthed ymddygiad a welwyd ganddo ef. Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu disgrifiad o ddyfais sydd yn ddyfais a gymeradwyir at y diben hwn. Yn unol ag erthygl 2, mae dyfais yn ddyfais a gymeradwyir os yw o fath sydd wedi ei hardystio gan Weinidogion Cymru fel un sydd yn bodloni'r gofynion a bennir yn yr Atodlen.

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2. Ym mharagraff 1(1)(b) o'r Atodlen, mae'r testun Cymraeg yn cynnwys yr ymadrodd "sydd o ran y defnydd a wneir ohonynt yn cyflawni tramgwyddau parcio" ["which are, in respect of the use being made of them, committing parking "offences]. Nid oes cyfeiriad cyfatebol at y defnydd o'r cerbyd yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] Ym mharagraff 1(1)(d) o'r Atodlen, mae'r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "in relation to which a parking contravention was committed", ac nid oes ymadrodd yn cyfateb iddo yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ac mae'n bwriadu dirymu ac ail-wneud y Gorchymyn cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach na 30 Ebrill 2008.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Ebrill 2008